

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Chwefror 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Evans, Arwel Pierce, Geraint Evans

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Alan H. Jones

2. Datgan diddordeb: Cynghorydd Arwel Pierce - Eitem 4 - Buddiant sydd ddim yn rhagfarnu - Cadeirydd Pwyllgor Dail Dysynni

3. Derbyn cofnodion 17 Ionawr 2022:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cais Ariannol - Dail Dysynni:

Bu i'r Cynghorydd Arwel Pierce ddatgan buddiant sydd ddim yn rhagfarnu a bu iddo aros yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I gyfrannu £75.

5. Cais Ariannol - Tŷ Gobaith:

PENDERFYNIAD: I beidio cyfrannu.

6. Cais Ariannol - Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen:

PENDERFYNIAD: I beidio cyfrannu.

7. Cais Ariannol - Eisteddfod Genedlaethol Urddo Gobaith Cymru Sir Ddinbych 2022:

PENDERFYNIAD: I beidio cyfrannu.

8. Cais Ariannol - Elusen Ambiwylans Awyr Cymru:

PENDERFYNIAD: I gyfrannu £50.

9. Cyfrifon i'w talu:

Defib Store	Cabinet defib	101777	£481.44
B Gwilym	Cyflog	101778	£188.52
Cyllid a Thollau EM	YG	101779	£47.00
PlayQuest Ltd	Offer chwarae	101780	£10,247.40
Jones & Jones	Offer chwarae	101781	£396.00
B Gwilym	Nwyddau swyddfa	101782	£6.00
Dail Dysynni	Rhodod	101783	£75.00
Elusen Ambiwylans Awyr	Rhodod	101784	£50.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

10. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - diffyg cysgodfa bws ger Pont y Mileniwn:

Yr oedd cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ei gynnal. Adroddwyd nad oedd gan Gyngor Gwynedd gyllideb i brynu cysgodfa bws ond y byddai pentref Bryncrug ar frig y rhestr er mwyn cael cysgodfa ail-law.

Cafwyd wybod gan gynghorydd bod ardal Dolgellau yn cael cysgodfeydd newydd gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd.

PENDERFYNIAD: I ddiolch i'r swyddog am fynychu cyfarfod safle, gan ofyn am un o'r cysgodfeydd o ardal Dolgellau pan byddant ar gael.

11. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant deffibrileiddio - diweddariad:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod cais y cyngor am beiriant deffibrileiddio wedi yn llwyddiannus. Er mwyn cael y peiriant yr oedd yn rhaid i'r cyngor brynu cabinet wedi ei wresogi a'i osod. Byddai y peiriant wedyn yn cael ei ryddhau a byddai angen trefnu sesiwn hyfforddiant i'r cyhoedd.

Adroddwyd bod y Cyngorydd Alan H Jones wedi gwirfoddoli i osod y cabinet i wal allanol y Pafiliwn a'i gysylltu i'r cyflenwad trydan.

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Scottish Power i osod darllynydd trydan newydd ac 'roedd tri opsiwn.

PENDERFYNIAD: I brynu cabinet deffibrileiddio.
I ddiolch i'r Cyngorydd Alan H Jones am wirfoddoli i osod y cabinet ar gyfer y peiriant.
I fynd am y trydydd opsiwn oedd yn cael ei gynnig gan Scottish Power gan y byddai y gost fesul uned a'r gost dyddiol am y darllynydd yn is na'r opsiynau eraill.

12. Cais gan aelod o'r cyhoedd i osod mainc er cof:

Nodwyd nad oedd teitl yr agenda yn gywir.

Cafwyd adroddiad gan gyngorydd bod aelod o'r cyhoedd wedi cynnig swm o arian er mwyn cofio am aelod o'r teulu. Cafwyd trafodaeth am dderbyn yr arian a'i ddefnyddio er mwyn cyfrannu tuag at mainc newydd ger yr hysbysfwrdd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cynnig ariannol a'i glustnodi tuag at mainc newydd, fydd wedi ei leoli ger yr hysbysfwrdd ac yn mainc er cof am dri unigolyn sydd wedi cyfrannu llawer iawn tuag at y pentref am nifer o flynyddoedd.
I ymfodyn am ganiatâd y tri teulu i osod mainc er cof.

13. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Cronfa Cymunedau Mentrus Gwynedd:

PENDERFYNIAD: I adael y mater ar y bwrdd.

14. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Ymatebion i ymgynghoriad Ardal Ni 2035:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi barn y cyngor bod gormod o bwyslais ar yr ardaloedd trefol, megis Tywyn ac Aberdyfi, a dylid newid ffiniau'r ardaloedd gan greu ardal ychwanegol ar gyfer yr ardaloedd gwledig – gan gynnwys Bryn-crug, Llanegryn a Llanfihangel-y-Pennant.
I ofyn i Gyngor Gwynedd gysylltu gyda Chyngor Cymuned Bryn-crug cyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf, gan bod y cyngor o'r farn nad oedd digon o bwyslais ar Fryn-crug.

15. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

-offer chwarae newydd wedi cyrraedd

-nodwyd bod cyfarfod i'w gynnal y noson ganlynol gyda'r clwb pel-droed

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I ddiolch i'r Cyngorydd Bethan Lawton am sicrhau'r offer chwarae newydd drwy gwblhau cais am grant.
I ddiolch i'r Cyngorydd Alan H Jones am ei waith o asesu diogelwch yr offer yn fisol ac adrodd yn ôl i'r cyngor am unrhyw ddiffygion.

16. Adroddiad y Cyngorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cyngorydd Sir:

-treth cyngor yn debygol o godi oddeutu 3% - cyfarfod yr wythnos ganlynol er mwyn gosod y dreth

-y cyngor yn gwario llawer o arian – diffyg ymgynghori wedi bod rhwng y swyddogion a'r cyngorwyr

- y cyngor yn gweithio tuag at sicrhau bod myfyrwyr 16+ yn cael teithio am ddim i Goleg Meirion Dwyfor
- gangiau cymunedol yn cael eu sefydlu – y cyngor wrthi'n recriwtio
- cinio am ddim i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn cychwyn ym mis Medi - mwy o wybodaeth i ddod
- wedi cael cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr - problemau recriwtio difrifol
- Dau feddyg yn bwriadu aros yn meddygfa Tywyn
- yn recriwtio ymarferydd nyrsio
- heb lenwi swyddi deintyddol – yn bwriadu sefydlu practis hyfforddiant
- buddsoddiad mawr ym Mangor – mewn robotics
- dysgu doctoriaid, nyrsys a deintyddion ym Mangor – gan obeithio y byddant yn aros yng Ngwynedd / yn yr ardaloedd gwledig
- wedi mynychu cyfarfod asiantaeth tai Adra – 175 o dai ym Meirionnydd yn aros am waith allanol, a 52 yn aros am waith mewnol
- ym mis Mehefin bydd batwn Frenhines fel rhan o gemau y Gymanwlad yn ardal Dysynni - y tro cyntaf ers 1958
- cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd wedi ei ohirio
- cyfarfod o'r fforwm LleChi wedi ei ohirio
- y sietyr wedi ei dorri ar y llwybr beicio rhwng Brynchrug a Thywyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

17. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oes mater brys.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:00pm

Llofnod y Cadeirydd